

sportwales
chwaraeoncymsu



**BUDDSODDI MEWN
PARTNERIAID:
MEINI PRAWF CYLLIDO**

CYFLWYNIAD

Mae'r briff technegol hwn yn manylu ar y meini prawf, y ffynonellau o ddata a'r pwysoli a ddefnyddiwyd i ddyrannu cyllid i gyrff rheoli cenedlaethol ac endidau rhanbarthol. Fe welwch chi fod y meini prawf wedi cael eu rhannu'n elfennau cyfranogiad a pherfformiad, gyda sgôr gyllido gyffredinol ar gyfer pob corff rheoli cenedlaethol yn cael ei sefydlu pan ddaw'r ddwy adran at ei gilydd.

Defnyddir meini prawf ar wahân i benderfynu ar y cyllid ar gyfer endidau rhanbarthol, yn seiliedig ar ffactorau poblogaeth, economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol. Defnyddir pwysoli, sydd yn unol â strategaeth newydd Chwaraeon Cymru, gyda'r meini prawf i gael 'sgôr' gyffredinol sy'n penderfynu ar lefel fwyaf y cyllid y gall partneriaid ei dderbyn.

Mae'r fformiwla'n rhoi'r pwysoli trymaf o blaid y chwaraeon mae pobl ifanc yn cymryd rhan ynddynt ar hyn o bryd gan fod hwn wedi cael ei gydnabod fel y maes lle gall ymyriad gan gorff rheoli cenedlaethol gael yr effaith fwyaf.

ADRAN 1: CYFRANOGIAD

Defnyddir i ddyrannu cyllid ar gyfer cyrff rheoli cenedlaethol.

ADRAN 2: PERFFORMIAD

Defnyddir i ddyrannu cyllid ar gyfer cyrff rheoli cenedlaethol.

ADRAN 3: DAEARYDDOL


Defnyddir i ddyrannu cyllid ar gyfer endidau partneriaethau chwaraeon rhanbarthol pan gânt eu sefydlu.

sportwales
chwaraeon cymru



SGORIAU CYFRANOGIAD

sportwales
chwaraeon cymru



- 29% - Cyfranogiad yn yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol
- 14% - Cyfranogiad Merched yn yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol
- 3% - Cyfranogiad Ieuenctid Duon ac o Leiafrifoedd Ethnig yn yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol
- 3% - Cyfranogiad Anabledd yn yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol
- 9% - Cyfranogiad yn yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol mewn ardaloedd o amddifadedd (fel y diffinnir gan y rhai â'r gyfran uchaf o blant yn hawlio prydau ysgol am ddim)
- 9% - Galw Cudd yn yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol
- 5% - Galw Cudd Merched yn yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol
- 1% - Galw Cudd Ieuenctid Duon ac o Leiafrifoedd Ethnig yn yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol
- 1% - Galw Cudd Anabledd yn yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol
- 3% - Galw cudd yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol yn ôl amddifadedd
- 14% - Cyfranogiad oedolion
- 9% - Galw cudd oedolion

Mae'r boblogaeth dros 16 oed tua 4.6 gwaith maint y boblogaeth dan 16 oed. Mae'n bwysig cydnabod bod y canrannau a ddangosir yn y siartiau cylch yn adlewyrchu'r pwysoli a ddefnyddir yn y model yn seiliedig ar system sgorio safonol ar gyfer plant ac oedolion. Felly mae'r gwahanol feintiau poblogaeth yn cael eu haddasu gan ddefnyddio'r pwysau yn unig. Mae hyn yn golygu, yn unol â'n bwriadau strategol a phrif bwrpas y dull buddsoddi newydd, bod mwy o bwyslais ar gyfranogiad a galw plant yn seiliedig ar faint y boblogaeth. Nodwn hefyd bod yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol, fel y mesur procsi agosaf ar gyfer plant o dan oedran ysgol, yn cael ei ystyried fel cynrychiolaeth o bob plentyn o dan 16 oed.

PARTNERIAID CHWARAEON

CYFRANOGIAD


sportwales
chwaraeon cymru

Y MAEN PRAWF A PHAM MAE WEDI CAEL EI GYNNWYS	Ffynhonnell y data	Y flwyddyn yr oedd y data ar gael ynddi fwyaf diweddar	Pa oedran o'r boblogaeth mae'r data'n berthnasol iddo	Beth mae'r data'n ei fesur	Y pwysoli perthnasol i'r data
<p>Cyfranogiad yn yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol Mae hwn wedi cael ei gynnwys fel mesur cyffredinol i gofnodi cyfranogiad pobl ifanc mewn chwaraeon clwb a chymunedol. Mae'n cydnabod y maes ble gall ymyriad gan gorff rheoli cenedlaethol gael yr effaith fwyaf.</p> <p>Mae plant y dosbarthiadau uchaf yn y cynradd a disgyblion uwchradd wedi'u cynnwys i roi cofnod o'r chwaraeon lle mae cyfranogiad ar lefel uwch efallai yn y sector cynradd.</p>	<p>Arolwg ar Chwaraeon Ysgol https://www.sport.wales/research-and-insight/school-sport-survey/</p>	<p>2022</p>	<p>Disgyblion Cynradd ac Uwchradd. Blynnyddoedd ysgol 3 i 11.</p>	<p>Amledd y cyfranogiad yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf mewn clwb cymunedol (o leiaf unwaith yr wythnos)</p>	<p>X 10 Mae'r pwysau'n seiliedig ar linell sylfaen o 100%. Dyma ein meini prawf sylfaenol a'r gyfres ddata bwysicaf yn y model. Addasir pwysau eraill yn berthynol i'r pwysoli hwn.</p>
<p>Cyfranogiad Merched yn yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol Rydyn ni'n gwybod bod cyfranogiad benywaidd yn is yn draddodiadol na'r cyfranogiad gwrywaidd. Rydyn ni wedi cynnwys hwn fel maen prawf ar wahân er mwyn cydnabod y chwaraeon sy'n gallu, ac yn, cael yr effaith fwyaf mewn cynyddu cyfranogiad ar gyfer y demograffig hwn.</p>	<p>Arolwg ar Chwaraeon Ysgol https://www.sport.wales/research-and-insight/school-sport-survey/</p>	<p>2022</p>	<p>Disgyblion Cynradd ac Uwchradd. Blynnyddoedd ysgol 3 i 11.</p>	<p>Amledd y cyfranogiad yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf mewn clwb cymunedol (o leiaf unwaith yr wythnos)</p>	<p>X 5 Yn seiliedig ar hanner y merched yn y boblogaeth gyffredinol. Tynnwyd o amcangyfrifon poblogaeth Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae'r gyfres ddata yma'n cael ei phwysoli'n berthynol i'r cyfranogiad cyffredinol mewn ffordd sy'n adlewyrchu cymhareb y gwrywod i'r benywod ym mhoblogaeth Cymru yn gyffredinol.</p>
<p>Cyfranogiad cymunedau ethnig amrywiol yn yr Arolwg Chwaraeon Ysgol Yn yr un modd â chyfranogiad merched, rydyn ni'n gwybod bod y cyfranogiad ymhlith cymunedau ethnig amrywiol yn tueddu i fod yn is na chyfartaledd Cymru gyfan.</p> <p>Rydyn ni wedi cynnwys y maen prawf hwn i gydnabod y chwaraeon a all, ac sy'n cael yr effaith fwyaf o ran cynyddu cyfranogiad yn y maes hwn.</p>	<p>Arolwg ar Chwaraeon Ysgol https://www.sport.wales/research-and-insight/school-sport-survey/</p>	<p>2022</p>	<p>Disgyblion Cynradd ac Uwchradd. Blynnyddoedd ysgol 3 i 11.</p>	<p>Amledd y cyfranogiad yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf mewn clwb cymunedol (o leiaf unwaith yr wythnos)</p>	<p>X 1 Yn seiliedig ar ffigurau bras o 10% - wedi'u tynnu o ddata cyfrifiad 2021.</p> <p>Mae'r set ddata hon wedi'i phwysoli o gymharu â'r cyfranogiad cyffredinol mewn ffordd sy'n adlewyrchu cymhareb y plant o gymunedau ethnig amrywiol i boblogaeth Cymru gyfan.</p>
<p>Cyfranogiad Anabledd yn yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol Unwaith eto, rydyn ni wedi adlewyrchu ar yr angen am gynnwys maen prawf ar gyfer chwaraeon sy'n gallu ysgogi cyfranogiad ymhlith rhannau o boblogaeth Cymru lle mae'r lefelau presennol yn is. Mae cyfranogiad unigolion ag anabledd neu nam mewn chwaraeon yn faes ar gyfer twf a gydag angen cydraddoldeb penodol.</p> <p>Rydyn ni wedi cynnwys y maen prawf hwn i gydnabod y chwaraeon a all, ac sy'n cael yr effaith fwyaf o ran cynyddu cyfranogiad ymhlith yr unigolion hynny a fyddai'n cael eu cynnwys yn y set ddata hon.</p>	<p>Arolwg ar Chwaraeon Ysgol https://www.sport.wales/research-and-insight/school-sport-survey/</p>	<p>2022</p>	<p>Disgyblion Cynradd ac Uwchradd. Blynnyddoedd ysgol 3 i 11.</p>	<p>Amledd y cyfranogiad yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf mewn clwb cymunedol (o leiaf unwaith yr wythnos)</p>	<p>X 1 Yn seiliedig ar tua 9% o blant ag anabledd - yn dod o Arolwg Adnoddau Teuluol 2020/21.</p> <p>Mae'r set ddata hon wedi'i phwysoli o gymharu â'r cyfranogiad cyffredinol mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r gymhareb o blant y nodwyd bod ganddynt anabledd o fewn poblogaeth Cymru gyfan.</p>

Y MAEN PRAWF A PHAM MAE WEDI CAEL EI GYNNWYS	Ffynhonnell y data	Y flwyddyn yr oedd y data ar gael ynddi fwyaf diweddar	Pa oedran o'r boblogaeth mae'r data'n berthnasol iddo	Beth mae'r data'n ei fesur	Y pwysoli perthnasol i'r data
<p>Cyfranogiad yn yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol mewn ardaloedd o amddifadedd (fel y diffinnir gan y rhai â'r gyfran uchaf o blant yn hawlio prydau ysgol am ddim)</p> <p>Mae mynd i'r afael â phroblemau amddifadedd yn agwedd ar strategaeth newydd Chwaraeon Cymru. Gan gydnabod hyn, yn ogystal â'r ffaith bod unigolion o gefndiroedd difreintiedig yn llai tebygol yn ystadegol o gymryd rhan mewn chwaraeon, rydyn ni wedi cynnwys y mae prawf hwn er mwyn cydnabod y chwaraeon sy'n gallu, ac yn, cael yr effaith fwyaf mewn cynyddu cyfranogiad ar gyfer y rhan hon o gymdeithas.</p>	<p>Arolwg ar Chwaraeon Ysgol https://www.sport.wales/research-and-insight/school-sport-survey/</p>	<p>2022</p>	<p>Disgyblion Cynradd ac Uwchradd. Blynnyddoedd ysgol 3 i 11.</p>	<p>Amledd y cyfranogiad yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf mewn clwb cymunedol (o leiaf unwaith yr wythnos)</p>	<p>X 3 Yn seiliedig ar 31% o blant sy'n byw mewn tldi - cafwyd o ddata Llywodraeth Cymru am blant mewn tldi incwm cymharol yn ôl statws economaidd y cartref.</p> <p>Mae'r gyfres ddata yma'n cael ei phwysoli'n berthynol i'r cyfranogiad cyffredinol mewn ffordd sy'n adlewyrchu cymhareb plant sy'n byw mewn tldi ym mhoblogaeth Cymru yn gyffredinol.</p>
<p>Galw Cudd yn yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol</p> <p>Er mwyn cofnodi potensial camp yn y dyfodol a'i chapasiti i dyfu, yn ogystal â'r darlun presennol (cyfranogiad), rydyn ni wedi cynnwys y ffigurau ar gyfer galw cudd.</p> <p>Mae'r data hyn yn darparu cwmplas y cyfranogwyr posib y dylai Corff Rheoli Cenedlaethol edrych ar ddarparu ar eu cyfer mewn clwb cymunedol.</p>	<p>Arolwg ar Chwaraeon Ysgol https://www.sport.wales/research-and-insight/school-sport-survey/</p>	<p>2022</p>	<p>Disgyblion Cynradd ac Uwchradd. Blynnyddoedd ysgol 3 i 11.</p>	<p>Galw</p>	<p>X 3.3 Mae galw cudd wedi cael traean o'r pwyslais mewn cyfranogiad oherwydd ei bwysigrwydd ynghyd â'r ffaith nad oes gwarant bod galw'n cael ei droi yn gyfranogiad.</p> <p>Rydyn ni wedi rhoi mwy o bwysoli i gyfranogiad i sicrhau bod cymhelliant i droi galw'n weithredu.</p>
<p>Galw Cudd Merched yn yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol</p> <p>Fel gyda'r data cyfranogiad, rydyn ni wedi sefydlu meini prawf penodol i gydnabod yr effaith y gall camp ei chael ar segmentau pendant o'r boblogaeth sy'n rhan greiddiol o strategaeth Chwaraeon Cymru. Mae'r maen prawf yma'n cydnabod capasiti camp i gyrraedd cyfranogwyr benywaidd.</p> <p>Dylai Corff Rheoli Cenedlaethol fod yn edrych ar ddarparu ar gyfer y galw hwn mewn clwb cymunedol.</p>	<p>Arolwg ar Chwaraeon Ysgol https://www.sport.wales/research-and-insight/school-sport-survey/</p>	<p>2022</p>	<p>Disgyblion Cynradd ac Uwchradd. Blynnyddoedd ysgol 3 i 11.</p>	<p>Galw</p>	<p>X 1.7 Mae hyn yn seiliedig ar tua hanner y merched yn y boblogaeth gyfan - yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae'r set ddata hon wedi'i phwysoli o gymharu â'r ffigurau galw cudd mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r gymhareb o wrywod i fenywod ym mhoblogaeth gyffredinol Cymru.</p>
<p>Galw cudd cymunedau ethnig amrywiol yn yr Arolwg Chwaraeon Ysgol</p> <p>Fel gyda'r data cyfranogiad, rydyn ni wedi sefydlu meini prawf penodol i gydnabod yr effaith y gall chwaraeon ei chael ar segmentau penodol o'r boblogaeth sy'n rhan annatod o strategaeth Chwaraeon Cymru. Mae'r maen prawf hwn yn cydnabod gallu camp i gyrraedd cymunedau ethnig amrywiol.</p> <p>Dylai Corff Rheoli Cenedlaethol fod yn edrych ar ddarparu ar gyfer y galw hwn mewn clwb cymunedol.</p>	<p>Arolwg ar Chwaraeon Ysgol https://www.sport.wales/research-and-insight/school-sport-survey/</p>	<p>2022</p>	<p>Disgyblion Cynradd ac Uwchradd. Blynnyddoedd ysgol 3 i 11.</p>	<p>Galw</p>	<p>X 0.3 Yn seiliedig ar tua 10% o blant a nodwyd fel plant o gymunedau ethnig amrywiol drwy gyfrifiad 2021.</p> <p>Mae'r set ddata hon wedi'i phwysoli mewn perthynas â'r ffigur galw cudd mewn ffordd sy'n adlewyrchu cymhareb y plant o gefndiroedd du neu leiafrif ethnig i boblogaeth Cymru gyfan.</p>

Y MAEN PRAWF A PHAM MAE WEDI CAEL EI GYNNWYS	Ffynhonnell y data	Y flwyddyn yr oedd y data ar gael ynddi fwyaf diweddar	Pa oedran o'r boblogaeth mae'r data'n berthnasol iddo	Beth mae'r data'n ei fesur	Y pwysoli perthnasol i'r data
<p>Galw Cudd Anabledd yn yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol Fel gyda'r data cyfranogiad, rydyn ni wedi sefydlu meini prawf penodol i gydnabod yr effaith y gall camp ei chael ar segmentau pendant o'r boblogaeth sy'n rhan greiddiol o strategaeth Chwaraeon Cymru. Mae'r maen prawf yma'n cydnabod capasiti camp i gyrraedd cyfranogwyr sydd ag anabledd neu nam.</p> <p>Dylai Corff Rheoli Cenedlaethol fod yn edrych ar ddarparu ar gyfer y galw hwn mewn clwb cymunedol.</p>	<p>Arolwg ar Chwaraeon Ysgol https://www.sport.wales/research-and-insight/school-sport-survey/</p>	2022	Disgyblion Cynradd ac Uwchradd. Blynnyddoedd ysgol 3 i 11.	Galw	<p>X 0.3 Yn seiliedig ar tua 9% o blant ag anabledd – y ffynhonnell yw'r Arolwg Adnoddau Teuluol 2020/21.</p> <p>Mae'r set ddata hon wedi'i phwysoli mewn perthynas â'r ffigur galw cudd mewn ffordd sy'n adlewyrchu cymhareb y plant a nodwyd ag anabledd ym mhoblogaeth Cymru gyfan.</p>
<p>Galw cudd yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol yn ôl amddifadedd Fel gyda'r data cyfranogiad, rydyn ni wedi sefydlu meini prawf penodol i gydnabod yr effaith y gall camp ei chael ar segmentau pendant o'r boblogaeth sy'n rhan greiddiol o strategaeth Chwaraeon Cymru. Mae'r maen prawf yma'n cydnabod capasiti camp i gyrraedd cyfranogwyr sydd wedi'u heffeithio gan amddifadedd.</p> <p>Dylai Corff Rheoli Cenedlaethol fod yn edrych ar ddarparu ar gyfer y galw hwn mewn clwb cymunedol.</p>	<p>Arolwg ar Chwaraeon Ysgol https://www.sport.wales/research-and-insight/school-sport-survey/</p>	2022	Disgyblion Cynradd ac Uwchradd. Blynnyddoedd ysgol 3 i 11.	Galw	<p>X 1.1 Yn seiliedig ar 31% o blant sy'n byw mewn tldi - cafwyd o ddata Llywodraeth Cymru am blant mewn tldi incwm cymharol yn ôl statws economaidd y cartref.</p> <p>Mae'r gyfres ddata yma'n cael ei phwysoli'n berthynol i'r ffigur galw cudd mewn ffordd sy'n adlewyrchu cymhareb plant sy'n byw mewn tldi ym mhoblogaeth Cymru yn gyffredinol.</p>
<p>Cyfranogiad oedolion Mae hwn wedi cael ei gynnwys fel mesur cyffredinol i gofnodi cyfranogiad mewn chwaraeon clwb a chymunedol.</p>	<p>Arolwg Cenedlaethol Cymru https://gov.wales/nationalsurvey-wales-results-viewer</p>	2021-22	Oedolion (16 oed a hŷn)	Unrhyw gyfranogiad yn ystod y 4 wythnos ddiwethaf	<p>X 5 Mae angen sgorio ar gyfer cyfranogiad a galw oedolion, ond gan gydnabod cynaliadwyedd strategol a thymor hir denu pobl ifanc mewn chwaraeon fel blaenoriaeth, ac mae'r data hyn felly wedi pwysoli hanner cyfranogiad y plant.</p>
<p>Galw cudd oedolion Fel gyda data'r arolwg ar chwaraeon ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y model buddsoddi, er mwyn cofnodi potensial camp yn y dyfodol a'i chapsiti i dyfu, rydyn ni wedi cynnwys ffigurau ar gyfer galw cudd oedolion.</p> <p>Mae'r data hyn yn darparu'r cwmpas o ddarpar gyfranogwyr y dylai Rheoli Cenedlaethol fod yn edrych ar ddarparu ar eu cyfer mewn clwb cymunedol.</p>	<p>Arolwg Cenedlaethol Cymru https://gov.wales/nationalsurvey-wales-results-viewer</p>	2021-22	Unrhyw gyfranogiad yn ystod y 4 wythnos ddiwethaf	Galw	<p>X 3 Fel gyda galw cudd yn nata'r bobl ifanc, mae'r galw ymhlith oedolion wedi cael pwysoli is oherwydd eu pwysigrwydd ynghyd â'r ffaith nad oes gwarant bod galw'n cael ei droi yn gyfranogiad. Rydyn ni wedi rhoi mwy o bwysoli i gyfranogiad i sicrhau bod cymhelliant i droi galw'n weithredu.</p> <p>Rydyn ni wedi defnyddio cymhareb ar gyfer galw cudd ymhlith oedolion i gyfranogiad oedolion sydd ychydig yn uwch na'r gymhareb galw pobl ifanc i gyfranogiad. Mae hyn wedi cael ei wneud er mwyn adlewyrchu'r nifer uwch o gyfresi data pobl ifanc yn y model. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu annibyniaeth oedolion i weithredu mewn ffordd na fyddai pobl ifanc yn gallu gwneud bob amser.</p>

SGORIAU PERFFORMIAD



sportwales
chwaraeoncymru

- 10% - Statws Gemau Mawr
- 5% - Camp Sydd Wedi Cael Buddsoddiad ar Lefel y DU
- 20% - Argaeledd Medalau
- 15% - Enw da diweddar yng Ngemau'r Gymanwlad
- 10% - Enw da ar lwybr y DU
- 40% - Sgôr cyfranogiad




PERFFORMIAD

Y MAEN PRAWF A PHAM MAE WEDI CAEL EI GYNNWYS	Ffynhonnell y data	Y flwyddyn yr oedd y data ar gael ynddi fwyaf diweddar	Pa oedran o'r boblogaeth mae'r data'n berthnasol iddo	Beth mae'r data'n ei fesur	Y pwysoli perthnasol i'r data
<p>Statws Gemau Mawr Rydyn ni eisiau arddangos Cymru i'r byd drwy lwyddiant ar Lwyfan y Byd.</p> <p>Rydyn ni'n credu mai'r Gemau aml-chwaraeon mawr yw'r cyfrwng proffil uchaf i wneud hyn yn gyson.</p>	<p>Y Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol, Y Pwyllgor Paralympaidd Rhyngwladol, Ffederasiwn Gemau'r Gymanwlad.</p>	<p>2022</p>		<p>Ydi'r Gamp yn Gamp Gymanwlad Graidd, Camp Olympaidd/ Paralympaidd, y 2 neu ddim un o'r 2?</p>	<p>Heb fod yn gamp Olympaidd/Paralympaidd nac yn gamp graidd yng Ngemau'r Gymanwlad = 0 pwynt wedi'i sgorio.</p> <p>Camp Olympaidd/Baralympaidd neu gamp graidd yng Ngemau'r Gymanwlad = 1 pwynt wedi'i sgorio.</p> <p>Camp Olympaidd/Baralympaidd a champ graidd yng Ngemau'r Gymanwlad = 2 bwynt wedi'u sgorio.</p> <p>Penderfynwyd ar bwysoli'r categori hwn drwy atodi sgôr unigol i bob elfen o'r meini prawf. Mae system sgorio digid sengl yn cael ei hailadrodd drwy gydol y data perfformiad i sicrhau bod pob elfen yn cael ei gwerthuso ar hyd yr un raddfa fesur.</p>
<p>Camp Sydd Wedi Cael Buddsoddiad ar Lefel y DU Mae athletwyr Cymru'n ennill medalau yn y Gemau Olympaidd/ Paralympaidd fel rhan o Dîm Prydain Fawr.</p> <p>Mae gan Gyrrff Rheoli Cenedlaethol y DU sy'n cael eu cyllido gan UK Sport debygolrwydd mawr o ddychwelyd gyda medalau Olympaidd/Paralympaidd.</p>	<p>UK Sport</p>	<p>2022</p>		<p>Ydi UK Sport yn buddsoddi mewn rhaglen o safon byd?</p>	<p>Camp yn cael ei chyllido gan UK Sport = 1 pwynt wedi'i sgorio.</p> <p>Camp ddim yn cael ei chyllido gan UK Sport = 0 pwynt wedi'i sgorio.</p> <p>Fel gyda'r meini prawf statws gemau mawr, mae'r pwysoli sy'n cael ei ddefnyddio'n sgôr digid sengl syml i gydnabod bod camp yn cael buddsoddiad gan UK Sport neu ddim.</p>
<p>Argaeledd Medalau Rydyn ni eisiau cefnogi chwaraeon i ganolbwyntio ar ddull cyfannol o ddatblygu talent.</p> <p>Ystyrir nifer y cyfleoedd i fod yn llwyddiannus ar lwyfan y byd fel rhan o hyn.</p>	<p>Y Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol, Ffederasiwn Gemau'r Gymanwlad</p>	<p>2022</p>		<p>Nifer y medalau sydd ar gael i'w hennill yn y Gemau Olympaidd neu nifer y medalau sydd ar gael i'w hennill yng Ngemau'r Gymanwlad (mewn chwaraeon nad ydynt yn rhai Olympaidd)</p>	<p>1-4 medal = 1 pwynt wedi'i sgorio.</p> <p>5-10 medal = 2 bwynt wedi'u sgorio.</p> <p>11-30 medal = 3 phwynt wedi'u sgorio.</p> <p>31+ medal = 4 pwynt wedi'u sgorio.</p> <p>Mae graddfa'r sgorio wedi'i phennu i gydnabod gwerth cyfleoedd niferus am fedalau, gan sicrhau bod y raddfa symudol yn darparu sgoriau sy'n berthynol i feini prawf perfformio eraill.</p> <p>Y sgôr fwyaf sydd ar gael yw 4, sy'n ddwbl y sgorio ar gyfer y meini prawf statws Gemau mawr a chyllid gan y DU i gydnabod bod hwn yn faen prawf sy'n cofnodi canlyniadau posib bwriadau'r meini prawf blaenorol hynny.</p>

Y MAEN PRAWF A PHAM MAE WEDI CAEL EI GYNNWYS	Ffynhonnell y data	Y flwyddyn yr oedd y data ar gael ynddi fwyaf diweddar	Pa oedran o'r boblogaeth mae'r data'n berthnasol iddo	Beth mae'r data'n ei fesur	Y pwysoli perthnasol i'r data
<p>Enw da diweddar yng Ngemau'r Gymanwlad Yn seiliedig ar dystiolaeth hanesyddol, rydyn ni wedi penderfynu bod llwyddiant diweddar yng Ngemau'r Gymanwlad yn arwydd da o debygolrwydd o lwyddiant yn y dyfodol.</p>	<p>Canlyniadau Birmingham 2022 a chanlyniadau'r Arfordir Aur 2018.</p>	<p>Y Gemau Cymru y 2 dro diwethaf.</p>		<p>Nifer cyfun o fedalau a enillwyd yn y Gemau Cymru y 2 dro diwethaf</p>	<p>1-4 (cyfartaledd o 2 fedal y Gemau neu lai) = 1 pwynt wedi'i sgorio.</p> <p>5-8 (cyfartaledd o fwy na 2 fedal a hyd at 4 medal y Gemau) = 2 bwynt wedi'u sgorio.</p> <p>9+ (cyfartaledd o fwy na 4 medal y Gemau) = 3 phwynt wedi'u sgorio.</p> <p>Mae'r raddfa wedi cael ei phennu i adlewyrchu safon y perfformiadau mewn Gemau diweddar, gan wobrwyo cyflawni mewn ffordd sy'n berthynol ar draws chwaraeon sy'n cystadlu yn y Gemau yma.</p> <p>Mae cyfle sgôr uwch yn cael ei weithredu ar gyfer y maen prawf hwn nag ar gyfer y meini prawf statws Gemau mawr a chyllid gan y DU. Mae hyn yn cydnabod bod hwn yn faen prawf sy'n cofnodi canlyniadau posib bwriadau'r categorïau hynny.</p>
<p>Enw da ar lwybr y DU Mewn chwaraeon lle mae UK Sport yn cefnogi rhaglen o safon byd, mae athletwyr o Gymru sy'n cael eu dewis ar y rhaglen o safon byd yn ofyniad ymlaen llaw (bob amser bron) i ennill medal Olympaidd/Paralympaidd.</p>	<p>UK Sport</p>	<p>2022</p>		<p>Canran yr athletwyr ar raglen Safon Byd UK Sport sy'n Gymry</p>	<p>Cyfartaledd o 4% (neu fwy) yn ystod y cylch diwethaf mewn fersiwn corff abl o'r gamp = sgoriwyd 1 pwynt</p> <p>Cyfartaledd o 4% (neu fwy) yn ystod y cylch diwethaf mewn fersiwn para o'r gamp = sgoriwyd 1 pwynt</p> <p>Cyfartaledd o 4% (neu fwy) yn y ddau gategori = sgoriwyd 2 bwynt</p> <p>Mae Cymru yn tua 5% o boblogaeth y DU. Felly, rydym wedi gosod sgôr sylfaenol o 4% i adlewyrchu'r hyn y gellid ei ystyried yn gyfraniad disgwylidig o Gymru at raglenni llwybr y DU o ystyried yr amrywiadau y gellid eu disgwyl yn rhesymol yn ystod cylch Olympaidd / Paralympaidd. Er mwyn dangos ein cefnogaeth i raglenni cynhwysol, rydym yn dyfarnu sgôr uwch i chwaraeon sy'n cyfrannu at y llwybrau para a chorff abl.</p>

Y MAEN PRAWF A PHAM MAE WEDI CAEL EI GYNNWYS	Ffynhonnell y data	Y flwyddyn yr oedd y data ar gael ynddi fwyaf diweddar	Pa oedran o'r boblogaeth mae'r data'n berthnasol iddo	Beth mae'r data'n ei fesur	Y pwysoli perthnasol i'r data
<p>Sgôr cyfranogiad Nid dim ond ennill medalau yw ein nod ni. Gan sefydlu newid yn y ffordd mae chwaraeon perfformiad yn cael eu gwerthfawrogi, rydyn ni eisiau cyflawni llwyddiant cynaliadwy ar lwyfan y byd mewn chwaraeon sy'n bwysig i Gymru yn ddiwylliannol yn ogystal ag mewn Gemau mawr. O ganlyniad, rydyn ni wedi cynnwys sgôr cyfranogiad yn y sgoriau perfformiad er mwyn cydnabod hefyd y llwybrau perfformiad ar gyfer y rhai sy'n cystadlu mewn Gemau heb fod yn rhai Olympaidd/Paralympaidd a Chymanwlad.</p>	<p>Cyfanswm y sgoriau o'r meini prawf cyfranogiad.</p> <p>Mae'r maen prawf hwn yn defnyddio'r holl sgoriau o'r data cyfranogiad chwaraeon fel cyfanswm.</p>	<p>Amrywiol fel yr amlinellwyd yn y manylion am y meini prawf cyfranogiad.</p>		<p>Maint a graddfa'r effaith mae camp yn ei chael, ac y gall ei chael, mewn cymuned a chlwb</p>	<p>Bydd gan bob camp sgôr gyffredinol ar gyfer eu canlyniadau yn y data cyfranogiad (cyfranogiad yn yr arolwg ar chwaraeon ysgol, cyfranogiad yn yr arolwg cenedlaethol, galw ac ati).</p> <p>Mae'r sgoriau cyffredinol o elfen cyfranogiad y meini prawf cyllido wedi cael eu rhannu yn 9 band ar wahân ond cyfartal, gyda phwyntiau wedi'u darparu ar raddfa symudol yn berthynol i bob band. Defnyddiwyd naw band fel ffordd o sicrhau bod sgoriau amrywiol yn y maen prawf hwn, ond ni chrëwyd bwlch rhy fawr rhwng pob partner yn seiliedig ar eu canlyniad elfen cyfranogiad.</p> <p>0-74 = 0 pwynt wedi'i sgorio. 75-149 = 1 pwynt wedi'i sgorio. 150-224 = 2 bwynt wedi'u sgorio. 225-299 = 3 phwynt wedi'u sgorio. 300-374 = 4 pwynt wedi'u sgorio. 375-449 = 5 pwynt wedi'u sgorio. 450-524 = 6 phwynt wedi'u sgorio. 525-599 = 7 pwynt wedi'u sgorio. 600+ = 8 pwynt wedi'u sgorio.</p> <p>Penderfynwyd ar y bandiau unigol drwy edrych ar y sgôr uchaf ar gyfer y meini prawf perfformio a rhannu gyda 9 i greu pwyntiau bandio cyson. Cynigir bod hyn yn cael ei ailadrodd ym mhob cylch cyllido i sicrhau bod y bandiau'n berthynol i'r sgoriau perfformiad ym mhob rownd. Does dim nifer penodol o chwaraeon ym mhob band ac ni fyddai unrhyw sgoriau chwaraeon unigol yn berthynol i rai eraill. Mae hyn yn golygu pe bai un gamp yn cael ei rhoi mewn band uwch neu is, ni fyddai i hynny unrhyw oblygiadau o ran sgorio camp arall drwy gyfrwng y maen prawf hwn.</p> <p>Mae'r sgôr uchaf ar gyfer yr elfen cyfranogiad yn cael ei chapio yn 8 pwynt (cyflawnir gan unrhyw gamp sydd wedi sgorio rhwng 600 ac 674 ar ran cyfranogiad cyffredinol y model). Mae hyn yn adlewyrchu'r angen am gydnabod pwysigrwydd diwylliannol a chymdeithasol elfen cyfranogiad y sgorio ar y llwybr perfformio. Mae'n cael ei phwysoli fel dwbl sgôr unrhyw faen prawf unigol arall yn y meini prawf perfformio, ond yn cael ei phwysoli'n is na'r sgôr uchaf bosib drwy elfennau eraill y data perfformiad (sy'n dod i gyfanswm o derfyn uchaf o 12) er mwyn cydnabod gwerth craidd perfformiad yn yr adran hon o'r model.</p>

SGORIAU DAEARYDDOL



- 59% - Poblogaeth 0 i 15 oed
- 12% - Poblogaeth 16 + oed
- 6% - Amddifadedd
- 6% - Gwledigrwydd
- 6% - Cymunedau ethnig amrywiol
- 6% - Galw Oedolion
- 6% - Anabledd

Mae'r boblogaeth dros 16 oed tua 4.6 gwaith maint y boblogaeth dan 16 oed. Mae'r gwahanol feintiau poblogaeth yn cael eu haddasu gan ddefnyddio'r pwysau yn unig. Mae hyn yn golygu, yn unol â'n bwriadau strategol a phrif bwrpas y dull buddsoddi newydd, bod mwy o bwyslais ar gyfranogiad a galw plant yn seiliedig ar faint y boblogaeth.



Y MAEN PRAWF A PHAM EI GYNNWYS	Ffynhonnell y data	Y flwyddyn yr oedd y data ar gael yn fwyaf diweddar	Pa oedran o'r boblogaeth y mae'r data'n ymwneud ag ef	Beth mae'r data yn ei fesur	Y pwysoli a roddwyd i'r data	Dyddiad rhyddhau nesaf
<p>Ffigurau poblogaeth Mae'r maen prawf hwn wedi'i gynnwys fel penderfyniad cyffredinol am nifer y bobl mewn awdurdod lleol. Rydyn ni wedi cynnwys y mesur hwn gan ei fod yn rhoi i ni faint a graddfa'r galw am y cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol sydd eu hangen. Rydyn ni wedi penderfynu y bydd angen mwy o fuddsoddiad ar awdurdod lleol â phoblogaethau mawr i weithio gyda a darparu ar gyfer y niferoedd hynny.</p>	<p>Cyfrifiad y Boblogaeth</p> <p>https://www.gov.wales/population-and-household-estimates-wales-census-2021-html</p>	2021	Pob Oedran: - Dan 18 oed - 16 oed a hŷn	Poblogaeth breswyl arferol	<p>X 5 ar gyfer dan 16 oed X 1 ar gyfer 16 oed a hŷn</p> <p>Dyma ein meini prawf sylfaenol a'r set ddata bwysicaf yn y model daearyddol.</p> <p>Mae'r sgôr 'dan 16 oed' bum gwaith yn fwy na'r sgôr '16 oed a hŷn' er mwyn sicrhau pwyslais ar bobl ifanc.</p> <p>Mae'r sgôr gyfunol yma'n ystyried niferoedd cyffredinol y boblogaeth a chost cyfleoedd i ddarparu ar gyfer y grŵp hwn.</p>	<p>2031</p> <p>Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gael yn flynyddol - wedi'u hailraddnodi i bob datganiad Cyfrifiad.</p>
<p>Data amddifadedd Gan gydnabod yr angen am fynd i'r afael â'r heriau penodol o weithio gydag ardaloedd o amddifadedd, a chysylltu'r buddsoddiad i feysydd blaenoriaeth Chwaraeon Cymru, rydyn ni wedi cynnwys maen prawf yn mesur amddifadedd. Mae'r mesur hwn yn gwerthuso'r ardaloedd bach mwyaf difreintiedig (LSOAs) mewn awdurdod lleol fel ein bod yn gallu buddsoddi yn yr ardaloedd hynny o angen.</p>	<p>Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)</p> <p>https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation</p>	2019	Pob oedran	Mae nifer yr ardaloedd bach (LSOAs) mewn awdurdod lleol sydd wedi'u dosbarthu fel rhai sydd o fewn y pump uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (fel canran o gyfanswm nifer yr LSOAs yn ardal yr awdurdod lleol).	<p>X 0.5 Gan ddefnyddio ffigur y boblogaeth fel y sylfaen ar gyfer ein model cyllido ar gyfer partneriaid daearyddol, rydyn ni wedi pwysoli pob mesur arall ar 0.5, sef hanner pwysau'r boblogaeth o oedolion. Mae'r gymhareb hon yn sicrhau mai poblogaeth gyffredinol y partner yw'r sbardun allweddol yn eu dyraniad cyllid, gan gydnabod mai dyma'r ffactor mwyaf yn y ddarpariaeth y mae angen iddynt ei chyflwyno, ond gan ganiatáu i flaenoriaethau strategol, fel amddifadedd, gael eu pwysoli o fewn y model.</p>	<p>2024 neu 2025 (amcangyfrif)</p> <p>Mae'r mynegai llawn yn cael ei ddiweddarau bob 4 i 5 mlynedd. Nid yw dyddiad y diweddariad nesaf wedi'i gytuno eto.</p>



Y MAEN PRAWF A PHAM EI GYNNWYS	Ffynhonnell y data	Y flwyddyn yr oedd y data ar gael yn fwyaf diweddar	Pa oedran o'r boblogaeth y mae'r data'n ymwneud ag ef	Beth mae'r data yn ei fesur	Y pwysoli a roddwyd i'r data	Dyddiad rhyddhau nesaf
<p>Data natur wledig Mae angen cydnabod heriau amrywiol cyflwyno chwaraeon mewn gwahanol ardaloedd daearyddol a chymdeithasol yng Nghymru. Er mwyn cynnwys hyn yn rhan o'r model buddsoddi rydyn ni wedi cynnwys dangosydd ar gyfer natur wledig.</p>	<p>Dosbarthiad Trefol Gwledig y Swyddfa Ystadegau Gwladol https://www.data.gov.uk/dataset/b1165cea-2655-4cf7-bf22-dfbd3cdeb242/rural-urban-classification-2011-of-lower-layer-super-output-areas-in-england-and-wales</p> <p>Amcangyfrifon Poblogaeth Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/lowersuperoutputareamidyearpopulationestimates</p>	2011 a 2017 yn y drefn honno	Pob Oedran	Canran y boblogaeth wledig gyffredinol mewn awdurdodau lleol (yn seiliedig ar bob categori nad yw'n drefol a Phoblogaeth ac Amcangyfrifon Poblogaeth Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is)	<p>X 0.5</p> <p>Gan ddefnyddio ffigur y boblogaeth fel y sylfaen ar gyfer ein model cyllido ar gyfer partneriaid daearyddol, rydyn ni wedi pwysoli pob mesur arall ar 0.5, sef hanner pwysau'r boblogaeth o oedolion. Mae'r gymhareb hon yn sicrhau mai poblogaeth gyffredinol y partner yw'r sbardun allweddol yn eu dyraniad cyllid, gan gydnabod mai dyma'r ffactor mwyaf yn y ddarpariaeth y mae angen iddynt ei chyflwyno, ond gan ganiatáu i flaenoriaethau strategol, fel amddifadedd, gael eu pwysoli o fewn y model.</p>	<p>Dosbarthiad Gwledig l'w gadarnhau – amcangyfrifir 2024/2025</p> <p>Amcangyfrifon poblogaeth LSOA yn cael eu diweddar'u'n flynyddol.</p>



Y MAEN PRAWF A PHAM EI GYNNWYS	Ffynhonnell y data	Y flwyddyn yr oedd y data ar gael yn fwyaf diweddar	Pa oedran o'r boblogaeth y mae'r data'n ymwneud ag ef	Beth mae'r data yn ei fesur	Y pwysoli a roddwyd i'r data	Dyddiad rhyddhau nesaf
<p>Cymunedau amrywiol yn ethnig</p> <p>Rydyn ni wedi cynnwys maen prawf penodol i gydnabod yr effaith y gall chwaraeon ei chael ar segmentau penodol o'r boblogaeth sy'n rhan annatod o strategaeth Chwaraeon Cymru. Mae'r maen prawf hwn yn cydnabod gallu awdurdod lleol i gyrraedd cyfranogwyr o gymunedau ethnig amrywiol.</p>	<p>Cyfrifiad y Boblogaeth</p> <p>https://gov.wales/ethnic-group-national-identity-language-and-religion-wales-census-2021-html#:~:text=55.2%25%20of%20the%20population%20in,(218%2C000%20individuals)%20in%202011.</p>	2021	Pob Oedran	<p>Canran y boblogaeth o fewn awdurdod lleol sydd heb ethnigrwydd 'Gwyn' ac yn hytrach sy'n nodi eu hethnigrwydd naill ai fel 'Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig'; neu 'Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribiaidd neu Affricanaidd'; neu 'Grwpiau ethnig cymysg neu luosog'; neu 'Grŵp ethnig arall'.</p>	<p>X 0.5</p> <p>Gan ddefnyddio ffigur y boblogaeth fel y sylfaen ar gyfer ein model cyllido ar gyfer partneriaid daearyddol, rydyn ni wedi pwysoli pob mesur arall ar 0.5, sef hanner pwysau'r boblogaeth o oedolion. Mae'r gymhareb hon yn sicrhau mai poblogaeth gyffredinol y partner yw'r sbardun allweddol yn eu dyraniad cyllid, gan gydnabod mai dyma'r ffactor mwyaf yn y ddarpariaeth y mae angen iddynt ei chyflwyno, ond gan ganiatáu i flaenoriaethau strategol, fel amddifadedd, gael eu pwysoli o fewn y model.</p>	2031
<p>Anabledd</p> <p>Rydyn ni wedi cynnwys maen prawf penodol i gydnabod yr effaith y gall chwaraeon ei chael ar segmentau penodol o'r boblogaeth sy'n rhan annatod o strategaeth Chwaraeon Cymru. Mae'r maen prawf yma'n cydnabod gallu awdurdod lleol i gyrraedd cyfranogwyr anabl.</p>	<p>https://www.gov.wales/health-disability-and-provision-unpaid-care-wales-census-2021-html</p>	2021	Pob oedran (safoni yn ôl oedran*)	<p>Canran y boblogaeth o fewn awdurdod lleol sy'n anabl (safoni yn ôl oedran *).</p> <p>Mae ymatebwyr a nododd gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor ac y mae eu gweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig wedi'u diffinio'n anabl yn y Cyfrifiad.</p>	<p>X 0.5</p> <p>Gan ddefnyddio ffigur y boblogaeth fel y sylfaen ar gyfer ein model cyllido ar gyfer partneriaid daearyddol, rydyn ni wedi pwysoli pob mesur arall ar 0.5, sef hanner pwysau'r boblogaeth o oedolion. Mae'r gymhareb yma'n sicrhau mai poblogaeth gyffredinol y partner yw'r sbardun allweddol yn ei ddyraniad cyllid, gan gydnabod mai dyma'r ffactor mwyaf yn y ddarpariaeth y mae angen iddo ei chyflawni, ond gan alluogi i flaenoriaethau strategol, fel amddifadedd, gael eu pwysoli o fewn y model.</p>	



Y MAEN PRAWF A PHAM EI GYNNWYS	Ffynhonnell y data	Y flwyddyn yr oedd y data ar gael yn fwyaf diweddar	Pa oedran o'r boblogaeth y mae'r data'n ymwneud ag ef	Beth mae'r data yn ei fesur	Y pwysoli a roddwyd i'r data	Dyddiad rhyddhau nesaf
<p>Galw cudd – Oedolion Galw gan oedolion i wneud mwy o chwaraeon (h.y. galw i wneud mwy o un gamp / gweithgaredd o leiaf)</p> <p>Mae'r maen prawf hwn yn cofnodi'r galw ymhlith y boblogaeth o oedolion o fewn ardal ddaearyddol. Rydyn ni wedi cynnwys hyn yn y setiau data i gydnabod y twf posibl mewn gweithgarwch corfforol i bartner ei gyflawni o fewn y grŵp yma mewn cymdeithas</p>	<p>Arolwg Cenedlaethol Cymru https://www.gov.wales/national-survey-wales</p>	2021-22	Oedolion – 16 oed a hŷn.	Canran y boblogaeth o fewn awdurdod lleol sy'n cofrestru galw am fwy o chwaraeon.	X 0.5 Gan ddefnyddio ffigur y boblogaeth fel y sylfaen ar gyfer ein model cyllido ar gyfer partneriaid daearyddol, rydyn ni wedi pwysoli pob mesur arall ar 0.5, sef hanner pwysau'r boblogaeth o oedolion. Mae'r gymhareb hon yn sicrhau mai poblogaeth gyffredinol y partner yw'r sbardun allweddol yn eu dyraniad cyllid, gan gydnabod mai dyma'r ffactor mwyaf yn y ddarpariaeth y mae angen iddynt ei chyflwyno, ond gan ganiatáu i flaenoriaethau strategol, fel amddifadedd, gael eu pwysoli o fewn y model.	2022-23

*Mae cyfrannau wedi'u safoni yn ôl oedran (ASPs) yn caniatáu cymhariaeth decach rhwng poblogaethau dros amser ac ar draws daearyddiaeth, gan eu bod yn cyfrif am wahaniaethau ym maint y boblogaeth a'i strwythur oedran (ONS - <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/disabilityenglandandwales/census2021>).

